OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 178 (Cy. 26) (C. 5)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Arbed) 2014

*Gwnaed - - - - 29 Ionawr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 97 a 100 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Arbed) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 20 Chwefror 2014**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthygl 3, y diwrnod penodedig ar gyfer dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2013 i rym yw 20 Chwefror 2014—

(a) Pennod 1 o Ran 2 (ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir);

(b) Pennod 2 o Ran 2 (ymyrryd mewn awdurdodau lleol);

(c) adran 96 (diddymu'r ddarpariaeth am god ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion);

(d) adran 99 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diwygiadau a wneir gan Ran 1 o Atodlen 5;

(e) Atodlen 1 (cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim);

(f) Rhan 1 o Atodlen 5 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2 o Ddeddf 2013); ac

(g) paragraffau 32 a 34(2) o Ran 3 o Atodlen 5 (diddymu adran 58 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006).

(**1**) 2013 dccc 1.

**Arbedion mewn perthynas ag adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996**

**3.**—(1) Nid yw dod ag unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a nodir yn erthygl 2 i rym yn effeithio ar unrhyw weithred a wneir, unrhyw ddatganiad nac unrhyw gyfarwyddyd o dan bwerau Gweinidogion Cymru yn adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996(**2**) neu mewn perthynas ag arfer y pwerau hynny, ac mae'r adrannau hynny yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai'r darpariaethau a nodir yn erthygl 2 wedi eu gwneud.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi dyroddi cyfarwyddyd drwy arfer eu pwerau yn adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 ("y pwerau cyfarwyddo") cyn i unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a nodir yn erthygl 2 ddod i rym a'u bod wedi eu bodloni y dylai cyfarwyddyd pellach gael ei ddyroddi mewn perthynas â'r un materion drwy arfer y pwerau cyfarwyddo, mae'r adrannau hynny yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai'r darpariaethau a nodir yn erthygl 2 wedi eu gwneud.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

29 Ionawr 2014

(**2**) 1996 p. 56.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r pedwerydd gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 20 Chwefror 2014 ddarpariaethau canlynol Deddf 2013:

(a) Pennod 1 o Ran 2 (ymyrryd ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir);

(b) Pennod 2 o Ran 2 (ymyrryd mewn awdurdodau lleol);

(c) adran 96 (diddymu'r ddarpariaeth am god ymarfer ar gyfer y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion);

(d) adran 99 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diwygiadau a wneir gan Ran 1 o Atodlen 5;

(e) Atodlen 1 (cyrff llywodraethu sydd wedi eu ffurfio o aelodau gweithrediaeth interim);

(f) Rhan 1 o Atodlen 5 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 2 o Ddeddf 2013); ac

(g) paragraffau 32 a 34(2) o Ran 3 o Atodlen 5 (diddymu adran 58 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod unrhyw weithred, datganiad neu gyfarwyddyd y mae Gweinidogion Cymru wedi ei wneud o dan eu pwerau yn adrannau 496 i 497A o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"), neu mewn perthynas â'r pwerau hynny, yn parhau i fod yn gymwys. Mae hefyd yn darparu y caniateir i gyfarwyddyd pellach, mewn perthynas â'r un materion, gael ei wneud o dan adrannau 496 i 497A o Ddeddf 1996.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 38, 39, 97 a 98 | 26 Ebrill 2013 i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn ymwneud â llunio a gosod y Cod Trefniadaeth Ysgolion | O.S. 2013/1000 (Cy.105) |
| Adrannau 38 a 39 | 1 Hydref 2013 yn llawn | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 2 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 3 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 4 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Pennod 5 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Pennod 6 o Ran 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Rhan 4 | 2 Rhagfyr 2013 | O.S. 2013/3024 (Cy.299) |
| Adrannau 97 a 98 | 4 Mai 2013 yn llawn | O.S. 2013/1000 (Cy.105) |
| Adran 99 | 1 Hydref 2013 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diwygiadau a wneir gan Ran 2 o Atodlen 5 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Atodlen 2 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Atodlen 3 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Paragraffau 1 i 7 a pharagraffau 9 i 39 o Atodlen 4 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |
| Rhan 2 o Atodlen 5 | 1 Hydref 2013 | O.S. 2013/1800 (Cy.182) |